| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cyngor Llawn |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 5 Rhagfyr 2017 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cynghorydd Hugh Evans (Arweinydd) |
| Awdur yr Adroddiad: | Gary Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol |
| Teitl: | Recriwtio Prif Weithredwr |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

   Mae'r adroddiad yn sôn am y broses recriwtio sydd angen ei gweithredu i recriwtio Prif Weithredwr newydd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

   Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i recriwtio i rôl y Prif Weithredwr yn dilyn ymddiswyddiad diweddar Mohammed Mehmet a chytuno ar y dull gweithredu ar gyfer y broses recriwtio. Mae hyn yn cynnwys y pecyn tâl sydd i'w gynnig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

   **3.1** Bod y Cyngor yn cytuno i recriwtio Prif Weithredwr newydd
   **3.2** Bod y Cyngor yn cytuno ar y pecyn tâl arfaethedig
   **3.3** Bod y Cyngor yn cytuno ar y pecyn recriwtio
   **3.4** Bod y Cyngor yn cytuno ar y broses recriwtio

4. Manylion yr adroddiad

   Mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad a bydd yn gadael yr awdurdod ar 30 Ebrill 2018.

   Mae gan swydd y Prif Weithredwr gyfrifoldebau statudol Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, sy'n ofynnol o dan adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n cael ei benodi / ei phenodi i rolau Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol.

   Mae'n hanfodol fod trefniadau ar gyfer y broses recriwtio i lenwi'r swydd hon yn cael eu cytuno a'u gweithredu arnynt yn fuan er mwyn sicrhau fod yr Awdurdod yn parhau i fod â threfniadau rheoli a llywodraethu yn eu lle yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr.

Tâl

Mae pecyn cyflog cyfredol y Prif Swyddog Gweithredol fel a ganlyn:-

- Cyflog Pwynt Penodol hyd o £127,513 y flwyddyn
- Tâl sy’n Gysylltiedig â Pherfformiad o hyd at 12% o’r cyflog blynyddol drwy gysylltu dilyniant cyflog ag asesiad o berfformiad unigol a fesurir drwy’r Broses Arfarnu Perfformiad.
- Costau Adleoli o hyd at £8000 yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Contract cyflogaeth parhaol
- Aelodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Ffioedd Swyddog Canlyniadau
- 30 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â 2 ddiwrnod statudol ychwanegol a gwyliau banc

Cyfarfu’r Uwch Banel Tâl ar 7 Tachwedd 2017 i ystyried pecyn tâl arfaethedig ar gyfer y Prif Weithredwr newydd yr argymhellir i’r Cyngor i'w gymeradwyo.

Mae'r pecyn cyflog arfaethedig yn darparu graddfa gynyddrannol dri phwynt, gyda’r pwynt cynyddrannol uchaf yr un faint â'r cyflog pwynt penodol presennol o £127,513, gyda’r trefniadau Tâl yn Gysylltiedig â Pherfformiad cyfredol yn cael eu dileu. Bydd dilyniant cynyddrannol yn cael ei ddyfarnu yn seiliedig ar gwblhau gwasanaeth perthnasol.

Bydd dileu Tâl sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad a chyflwyno’r pwyntiau cynyddrannol yn darparu’r arbedion a fanylir isod:-

| Tâl arfaethedig y Prif Swyddog Gweithredol | £127,513 |
|---|---|
| | £125,600 |
| | £123,716 |
| Arbediad Posibl Blwyddyn 1 | £13,742 |
| Arbediad Posibl Blwyddyn 2 | £11,858 |
| Arbediad Posibl Blwyddyn 3 | £9,946 |
| Cyfanswm Arbedion | £35,548 |

Bydd y Pecyn Cyflog Arfaethedig yn dal i gynnwys:-

- Costau Adleoli o hyd at £8000 yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Contract cyflogaeth parhaol
- Aelodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Ffioedd Swyddog Canlyniadau
- 30 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â 2 ddiwrnod statudol ychwanegol a gwyliau banc

Gyda’i gilydd bydd y pecyn yn darparu arbediad 3 blynedd o £35,548 yn erbyn y cyfanswm cyflog cyfredol (gan gynnwys Tâl sy’n Gysylltiedig â Pherfformiad). Gobeithir y bydd y cynigion cyflog hyn yn ddigon i atynnu’r talent cywir o Gymru ac ar draws y ffin yn Lloegr.

Mae rhan o'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gael ei ystyried gan Banel Adolygu Annibynnol Cymru.

Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) gan Lywodraeth Cymru o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 a gafodd eu diddymu wedyn gan Fesul Llywodraeth Cymru 2011 (y Mesur). O dan a141 y Mesur cadarnhawyd bodolaeth y Panel ond rhoddwyd cylch gwaith ychydig yn wahanol iddo. Gwnaeth deddfwriaeth ddiweddarach gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 newidiadau i gyflwyno a143A i'r Mesur i roi pwerau i'r Panel i ymwneud â chyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig.

Cyfarfu'r Panel ar 16 Tachwedd 2017 er mwyn ystyried y cynnig ac roedd y Panel yn cytuno'n llwyr ar y newidiadau arfaethedig.

Y Broses Recriwtio

Yn unol â Rheolau Diwygiedig Sefydlog (Cymru) 2014, mae'n ofynnol hysbysebu ar gyfer swyddi â chyflogau o fwy na £100k ac sydd am gyfnod o 12 mis neu fwy, yn allanol.

Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â recriwtio Prif Swyddogion wedi'i gynnwys yn Rheolau'r Weithdrefn Gyflogi Swyddogion a amlinellir yn Rhan 11 y Cyfansoddiad. Mae hyn yn nodi y bydd y Cyngor Llawn yn penodi Prif Weithredwr.

Cynhwysir y Broses Recriwtio arfaethedig ar gyfer y Prif Weithredwr yn Atodiad **A.**

Fel rhan o'r broses hon, sefydlir Panel Penodiadau Arbennig a fydd yn gyfrifol am lunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld ac asesu eu haddasrwydd ar gyfer y swydd drwy broses asesu a chyfweld 2 ddiwrnod. Wedi hyn bydd y Panel Penodiadau Arbennig yn cyflwyno rhestr fer o ymgeiswyr addas i'r Cyngor Llawn. Yn seiliedig ar gyflwyniad a chyfweliad gan bob ymgeisydd i'r Cyngor Llawn, bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu pwy i'w benodi / ei phenodi i'r rôl.

Argymhellir fod y Panel Penodiadau Arbennig yn cynnwys 7 aelod ac yn banel o gydbwysedd gwleidyddol a gadeirir gan yr Arweinydd a bydd yn cynnwys uchafswm o 2 Aelod Cabinet arall. Caiff y Panel ei gefnogi gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd a Rheolwr y Gwasanaethau AD.

Gofynnir i Arweinwyr Grwpiau enwebu Aelodau ar gyfer y Panel a bydd cais ffurfiol am enwebiadau yn cael ei anfon allan yn dilyn y cyngor llawn.

Argymhellir fod yr ymgyrch recriwtio Prif Weithredwr parhaol yn cael ei rheoli'n fewnol gan Reolwr y Gwasanaethau AD gydag arbenigwr allanol yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyflawni chwiliad gweithredol, ac i gynorthwyo gyda chreu'r rhestr fer, a'r broses asesu a phenodi. Bydd hyn yn golygu y bydd gan y Cyngor fynediad at ffynonellau cyswllt a phrosesau asesu gan arbenigwyr yn y math hwn o recriwtio. Disgwylir y bydd y gost ar gyfer hyn oddeutu £14,000 - £20,000. Mae hyn yn cynnwys cost hysbysebion cyfryngau, profion arbenigol, a pharatoi a dadansoddi asesiadau.

Ymgymerir â'r broses i ddewis arbenigwr allanol drwy dendr ffurfiol. Argymhellir bod y Cyngor yn cytuno bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd ar

y cyd â'r Arweinydd yn asesu'r tendrau ac yn penderfynu ar ba arbenigwr i'w ddefnyddio.

Diweddarwyd y swydd-ddisgrifiad gyfredol ar gyfer rôl y Prif Weithredwr ddiwethaf yn ystod Adolygiad Uwch Arweinydd Ebrill 2016 ac mae hwn yn ffurfio rhan o’r Pecyn Recriwtio drafft yn Atodiad B. Argymhellir bod y Cyngor yn cytuno ar y Pecyn Recriwtio ac i ddirprwyo cyfrifoldeb i awdurdodi unrhyw fân newidiadau i'r dogfennau hyn i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac *Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd*

Mae’r amserlenni dangosol ar gyfer y broses hon fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r broses recriwtio a’r pecyn tâl. | 5 Rhagfyr 2017 |
| Swydd i’w hysbysebu | 11 Rhagfyr 2017 |
| Dyddiad Cau | 12.00 y.p**.,** 8 Ionawr 2018 |
| Creu rhestr fer | 10 Ionawr 2018 |
| Y Ganolfan Asesu | 23 a 24 Ionawr 2018. |
| Cyngor Llawn | 25 Ionawr 2018 |

Byddai’r amserlen hon yn golygu y gallai’r Prif Weithredu newydd o bosib gychwyn ar 1 Mai 2018.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?
Bydd hyn yn sicrhau fod arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu cryf gan y Cyngor yn eu lle er mwyn cyflawni’r Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?
*Nodiadau adain: Dylid ystyried y meysydd canlynol fel isafbwynt wrth ddrafftio’r adroddiad:*

Does dim goblygiadau uniongyrchol ar unrhyw wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?
Nid oes angen Asesiad Effaith ar Les gan fod y cynnig yn unol â'r polisïau y cytunwyd arnynt.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?
Ymgynghorwyd â’r Arweinydd am y broses ac mae’r Panel Tâl wedi ymwneud â datblygiad y pecyn tâl arfaethedig ar gyfer y swydd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid
Mae darpariaeth gyllidebol yn bodoli ar gyfer y swydd a nodir yr arbedion posibl.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?
Bydd y Cyngor mewn peryg os na fydd capasiti uwch reoli a gwybodaeth arbenigol ddigonol i arwain y sefydliad.

Mae risg y bydd yr ymgyrch recriwtio yn aflwyddiannus. Fodd bynnag gobeithir y bydd y pecyn tâl yn ddigon atyniadol i dynnu sylw digon o ymgeiswyr.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

A112 Deddf Llywodraeth Leol 1972– pŵer i benodi staff

A4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 – gofyniad i benodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig